James Hughes, ‘Iago Trichrug’, 1779–1844

Gweinidog (MC), esboniwr Beiblaidd ac emynydd

Mae enw Crist i bawb o’r saint
fel ennaint tywalltedig,
ac yn adfywiol iawn ei rin
i’r enaid blin, lluddedig.

James Hughes

Un o gyfraniadau arhosol James Hughes i fywyd Cristnogol Cymru yw ei esboniadau Beiblaidd. Cyhoeddodd esboniadau llawn ar yr Hen Destament ond ni lwyddodd i orffen y Testament Newydd cyn iddo farw, a chredir mai John Jones, Lerpwl, a orffennodd y gwaith. Un o gryfderau ei esboniadau yw’r croesgyfeirio Beiblaidd eithriadol o fanwl sy’n gymorth i agor yr Ysgrythur.

Yn y Neuadd-ddu, Ciliau Aeron, Ceredigion, y cafodd James Hughes ei eni, ar 3 Gorffennaf 1779. Yr oedd ei dad, Siencyn Hughes, yn of, a’i fam Ellen yn ferch i grydd; bu hi farw pan oedd ei mab yn flwydd a hanner oed. Ailbriododd ei dad â gweddw a chanddi dri o blant ac yr oedd ganddo yntau bump o blant yn barod. Er gwaethaf hynny fe gafodd James Hughes beth addysg yn ysgol eglwys Trefilan ac ysgol Pennant. Nid oedd ei deulu’n Gristnogion ond mynychent oedfaon yn achlysurol yng Nghilcennin a’r Ciliau. Ymfudodd ei dad i America pan oedd James yn un ar bymtheg oed gan ei adael ar ei ben ei hun. Aeth fel prentis gof at Dafydd Jenkin, Capel Gartheli, Llanddewibrefi a threulio dwy flynedd yno. Pan oedd yn ddeunaw oed fe gafodd dröedigaeth wrth wrando ar y Parch. Dafydd Parry, Llanwrtyd, yn pregethu ar yr adnod ‘Pwy yw hon sydd yn dyfod i fyny o’r anialwch, megis colofnau mwg, wedi ei pherarogli â myrr, ac â thus, ac â phob powdr yr apothecari?’ (Caniad Solomon 3:6) ac ymaelododd â’r Methodistiaid yn Llangeitho. Wedi gorffen ei brentisiaeth cafodd waith yn efail Siôn

Dafydd, Llanddewi, Aberarth am dri mis, gan ennill cyflog o ddeunaw ceiniog yr wythnos. Gadawodd am Lundain gyda chefnder iddo i chwilio am waith ym 1799.

Ymsefydlodd yn Deptford gan gael gwaith fel gof yn 'Iard y Tŷ Coch' yn y dociau. Bu'n flaenllaw gyda chychwyniad yr achos crefyddol Cymraeg yn yr ardal honno. Ym 1801 symudodd i weithio i Iard y Brenin (King's Dockyard), lle y bu am un mlynedd ar hugain. Priododd â Martha Griffiths ym 1805 a chawsant oddeutu un ar ddeg o blant, ond chwech yn unig a oroesodd eu tad. Wedi cyfnod o wrthgilio a chefnu ar y ffydd dychwelodd i'r cylchoedd Cristnogol trwy ymaelodi yng nghapel y Methodistiaid Cymraeg, Wilderness Row. Traddododd ei bregeth gyntaf mewn ystafell yn Deptford ym 1810 oddi ar y testun Mathew 9:12, ac ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth yn sasiwn Llangeitho, 1816. Fel cymaint o'i genhedlaeth gweithiodd yn ddiflino i gael addysg ac i'w ddiwyllio'i hun.

Pan adleolwyd eglwys Wilderness Row ar ôl adeiladu capel newydd Jewin Crescent ym 1823, gwahoddwyd James Hughes i'w bugeilio. Cyfrannai'n gyson i gyfnodolion fel *Y Goleuad* a'r *Drysorfa* gan fynegi ei farn ar ddadleuon a phynciau llosg y dydd, e.e. 'Prynu'r Bendithion' a 'Rhyddfreinio'r Pabyddion'. Cyfansoddodd nifer o emynau a ddaeth yn boblogaidd ac y mae dau ohonynt yn *Caneuon Ffydd*. Bu farw ar 2 Tachwedd 1844 yn ei gartref yn Rotherhithe, a'i gladdu ym mynwent Bunhill Fields. Gosodwyd cofgolofn farmor urddasol ar ei fedd ym 1907 fel arwydd o werthfawrogiad o'i fywyd.